



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Matt Prior
2014 Review Team
Zone 1/H6
Eland house
Bressenden Place
Llundain, SW1E 5DU

Dyddiad/Date: 22 January 2014

Annwyl Syr/Madam / Dear Sir/Madam

Adolygu'r Gyfundrefn Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd

Diolch ichi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales ynglŷn â'r uchod.

Ym mis Ebrill 2013 daeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) â gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol. Mae swyddogaethau CNC wedi'u nodi yng Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 ac maent yn cynnwys y gofyniad i arfer ei swyddogaethau mewn modd sy'n:

1. Hyrwyddo cadwraeth natur a gwella harddwch naturiol ac amwynder, a
2. Hyrwyddo darparu a gwella cyfleoedd i fynd i gefn gwlad a mannau agored a'u mwynhau; cyfleoedd i fwynhau hamdden awyr agored; a chyfleoedd i astudio, deall a mwynhau'r amgylchedd naturiol.

Mae CNC yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r gyfundrefn cynllunio seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd (NSIP). Yng Nghymru, mae'r gyfundrefn yn cwmpasu llai o fathau o ddatblygu nag a wna yn Lloegr, ond o'r 14 prosiect y penderfynwyd arnynt hyd yma, roedd un prosiect y cafwyd penderfyniad arno wedi'i leoli'n gyfan gwbl o fewn Cymru (fferm wynt ar y tir, Brechfa) ac roedd ail brosiect yn un trawsffiniol (Gorsaf Drydan Niwclear Hinkley Point C). Hefyd, mae CNC wrthi ar hyn o bryd yn ymdrin â thri phrosiect sy'n mynd drwy'r cam Archwilio, ynghyd â nifer o brosiectau sydd ar gamau cyn ymgeisio'r broses. Mae ein profiadau hyd yma yn golygu y gallwn gynnig y pwyntiau allweddol canlynol:

- Rydym y gryf ein cefnogaeth i well rôl, a honno'n rôl fwy strwythuredig, i'r Arolygiaeth Gynllunio ar y cam cyn ymgeisio. Yn ein barn ni gallai rôl yr

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd / Newport Road, Caerdydd / Cardiff, CF24 0TP


Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Arolygiaeth Gynllunio ar y cam cyn ymgeisio gael ei chynyddu mewn ffordd fwy rhagweithiol ac effeithlon. Mae hynny'n wir hefyd am yr awgrym y dylid cyflwyno rhaglen neu brosbectws rheoli prosiect ar gyfer y cam hwn a sefydlu cerrig milltir allweddol i'r cam cyn ymgeisio.

- Croesawn y cynnig i rannu enghreifftiau neilltuol o ymarfer da a dogfennau enghreifftiol, yn enwedig mewn perthynas â sylwadau ysgrifenedig a Datganiadau Tir Cyffredin. Rydym yn gwerthfawrogi'r awydd i beidio â bod yn rhy ragnodol wrth ddarparu templedi i rai o'r dogfennau ond rydym yn frwd ein cefnogaeth i unrhyw gyfleoedd i ddysgu o waith a wnaed ar brosiectau cynharach.
- Mae'r cam cyn ymgeisio yn hanfodol er mwyn annog datblygu sy'n osgoi effeithiau negyddol ac sydd o fewn terfynau amgylcheddol. Hoffem weld yr adolygiad yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r cam cyn ymgeisio yn hytrach na phwyntiau diweddarach yn y broses.

Mae ein hymateb manwl i'w weld yn Atodiad 1 isod. Mae croeso ichi gysylltu â Sarah Wood neu Ian Gorton (manyllion cyswllt uchod) i gael rhagor o gyngor ynglŷn â'r ymateb hwn.

Yn gywir



Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ffôn/Tel: (029) 20466045
Ffôn symudol / Mobile: 07818008865
E-bost/E-mail: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk

| |
|--|
| Manylion Personol |
| Enw: Sarah Wood / Ian Gorton |
| Sefydliad: Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales |
| Cyfeiriad Ebst: sarah.wood@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| Ffôn |
| Gwella'r cam cyn ymgeisio a sicrhau bod y gofynion ymgynghori yn gymesur |
| Ydych chi'n cytuno â'r esboniad o'r materion cyfredol y mae angen rhoi sylw iddynt? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Ydym, rydym yn cytuno'n fras â'r esboniad o'r materion cyfredol y mae angen rhoi sylw iddynt.</p> <p>Yn arbennig, rydym yn cefnogi'r angen am fwy o strwythur, hwyluso a mwy o oruchwyliaeth ragweithiol gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar y cam cyn ymgeisio.</p> <p>Rydym yn awgrymu y dylai'r materion sydd dan sylw ar hyn o bryd gynnwys ansawdd yr asesiadau a'r wybodaeth sy'n cael eu cyflwyno gyda chais ar ddiwedd y cam cyn ymgeisio. Yn ein profiad ni hyd yma mae llawer iawn o wybodaeth ychwanegol a ddylai fod wedi cael ei hystyried ar y cam cyn ymgeisio yn cael ei chyflwyno yn ystod y cam archwilio, yn enwedig yn ystod sesiynau gwranddo.</p> <p>Byddem hefyd yn croesawu ychwanegu swyddogaeth y Datganiadau Tir Cyffredin at y meysydd pwnc, a hefyd sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u hamseriad. Yn ein profiad ni mae'r dogfennau hyn yn cael eu datblygu yn llawer rhy hwyr yn y broses ac mae hynny'n arwain at ofynion anghyson â'i gilydd ar adegau allweddol yn y broses NSIP.</p> <p>Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu cynnwys un mater, sef fod y cam cyn ymgeisio yn cymryd yn rhy hir neu fod rhai gofynion yn rhy feichus neu'n rhy rhagnodol o safbwynt ymgynghori.</p> |
| Ydych chi'n cytuno â'r syniadau posibl sydd wedi cael eu rhoi ger bron ac a oes syniadau eraill yr hoffech iddynt gael eu hystyried? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Ydym, rydym yn cytuno â'r syniadau posibl a gyflwynwyd i'w hystyried ac eto rydym yn cefnogi gwell gwasanaeth cyn ymgeisio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a hwnnw'n fwy strwythuredig a thryloyw. Teimlwn y bydd yr ymwneud hwn yn golygu bod modd rhoi mwy o bwyslais ar ddatrys materion cyn y cais.</p> <p>Syniadau eraill yr hoffem eu hawgrymu i gael eu hystyried un ai fel syniadau ychwanegol neu fel pwyntiau pellach at y rhestr sydd wedi'i nodi'n barod yw –</p> |

- Rôl mecanweithiau fel Cytundebau Perfformiad Cynllunio rhwng yr ymgeisydd a'r ymgynghorion statudol ar y cam cyn ymgeisio.
- Argymhell pwyntiau neu gerrig milltir ar y cam cyn ymgeisio, lle cytunir ar bethau fel pwy fydd yn ymgymryd â rôl yr awdurdod cymwys o ran Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pe bai angen un.
- Rhesymeg cyflwyno llawer iawn o wybodaeth ychwanegol yn hwyr/munud olaf a goblygiadau hynny, a mecanweithiau posibl i ddelio â hyn.
- Dilysu ceisiadau a beth yn rhagor y gellir ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth asesu berthnasol (yn cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) ar gael cyn i brosiect gael ei dderbyn i osgoi'r angen i gyflwyno llawer o wybodaeth bellach yn ystod y cam archwilio.
- Pwysigrwydd y cyswllt cyfredol strategol ond anffurfiol â'r Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â'r broses Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (e.e. y Fforwm Cydsynio) fel ffordd o wella'r broses NSIP, codi materion generig a rhannu'r arferion gorau, a bod y cyswllt hwnnw'n parhau.
- Egluro sut yr ymdrinnir â chydymffurfio ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac asesiadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr pan fydd nifer o ganiatadau ac awdurdodau caniatáu yn ymwneud â phrosiectau yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun cael awdurdod cymwys arweiniol a pha ganiatadau eraill y byddai'n well gwneud cais amdanynt.
- Swyddogaeth Datganiadau Tir Cyffredin, sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith a'u hamseriad. Mae'r rhain yn cael eu datblygu yn hwyr iawn ar y cam cyn ymgeisio neu hyd yn oed y cam cyn archwilio; bryd hynny mae blaenoriaethau eraill sy'n anghyson â'i gilydd. Byddai cytuno'n gynnar ar Ddatganiadau Tir Cyffredin yn help i hoelio'r sylw ar faterion y mae angen eu datrys o hyd yn ystod sylwadau ysgrifenedig a sesiynau Gwranddo.

Ydych chi'n cytuno bod meysydd o fewn y drefn y gellid eu symleiddio ac a oes gennych awgrymiadau am sut y byddai modd cyflawni hyn?

Ymateb:

Ydym, rydym yn cytuno â'r meysydd a awgrymwyd i symleiddio'r fiwrocratiaeth a rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r gweithdrefnau a'r gofynion. Mae'r awgrymiadau ynglŷn â gwella'r cyngor gan yr Arolygiaeth Gynllunio a sicrhau gwell gwasanaeth cyn ymgeisio gan yr Arolygiaeth, a hwnnw'n fwy strwythuredig a thryloyw, yn allweddol er mwyn symleiddio a rhoi mwy o eglurder.

Rydym o'r farn y dylid ymchwilio i rôl bosibl mecanweithiau fel cytundebau Perfformiad Cynllunio i ddod â'r Awdurdod Cynllunio Lleol, y datblygwr a rhanddeiliaid ynghyd fel cyfrwng i arwain cydweithio positif cyn ymgeisio ac i roi mwy o eglurder.

Pa gamau y gellid eu cymryd yn eich barn chi i symleiddio'r cam cyn ymgeisio ymhellach a chwtogi ar yr amser y mae'r cam hwn yn ei gymryd?

Ymateb:

Byddem yn pryderu pe bai symleiddio yn cael ei ddehongli fel ffordd gyflym o wneud

pethau ar y cam hwn. Mae'r cam cyn ymgeisio ac ymwneud buan yn hanfodol er mwyn annog datblygu sy'n osgoi effeithiau negyddol ac sydd o fewn terfynau amgylcheddol.

Rydym o'r farn y byddai adborth mwy uniongyrchol a chynharach gan ddatblygwyr am sut maen nhw wedi rhoi sylw i'r cyngor yr ydym ni wedi'i ddarparu, mwy o rôl i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystod trafodaethau cyn ymgeisio a datblygu a chytuno'n gynt ar Ddatganiadau Tir Cyffredin yn cwtogi ar yr amser y mae'r cam hwn yn ei gymryd ac yn gwella eglurder ac yn symleiddio ymhellach ar y cam hwn.

Fyddech chi'n cefnogi'r cynnig i ddarparu enghreifftiau o ddogfennau ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol? Os felly, oes rhai mathau arbennig o ddogfennau?

Ymateb:

Byddem. Yn arbennig enghreifftiau o ymarfer da o ran sylwadau ysgrifenedig a Datganiadau Tir Cyffredin gyda datganiadau byr i ddweud beth sy'n gwneud y rhain yn enghreifftiau da. Rydym yn gwerthfawrogi'r awydd i beidio â bod yn rhy rhagnodol ond rydym yn gryf ein cefnogaeth i unrhyw gyfleoedd i ddysgu o'r gwaith a wnaed ar brosiectau cynharach.

Ydy hwn yn faes gwaith y dylai'r adolygiad ganolbwyntio arno ac a oes newidiadau y byddech chi'n rhoi blaenoriaeth iddynt dros eraill?

Ymateb:

Oes. Cyngor CNC yw y dylid rhoi blaenoriaeth i'r syniad o well gwasanaeth cyn ymgeisio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a hwnnw'n fwy strwythuredig a thryloyw. Dylid datblygu prosiectws o'r hyn y gallai'r Arolygiaeth ei gynnis a beth y byddai hi'n ei ddisgwyl gan y datblygwyr a'r ymgynghoreion statudol yn ystod y cam hwn.

Byddem yn awgrymu y byddai amlygu arferion da a darparu enghreifftiau o ddogfennau yn gamau cyflym ymlaen.

Gwella'r cam cyn archwilio ac archwilio

Fyddech chi'n cefnogi'r awgrym y dylai sylwadau perthnasol gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y dânt i law'r Arolygiaeth Gynllunio?

Ymateb:

Na, nid ydym yn cefnogi'r awgrym y dylai sylwadau perthnasol gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y dânt i law. Teimlwn y gallai hyn arwain at lobïo a dylanwadu.

Rydym o'r farn y dylid cadw'r system bresennol o gofrestru bod 'sylw perthnasol' wedi cael ei gyflwyno a chyflwyno manylion pellach ar ffurf 'sylwadau ysgrifenedig'. Mae'r ddau gam hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i ganfod y materion allweddol ar y cam sylwadau ac yna gyflwyno manylion pellach yn ystod y sylwadau ysgrifenedig, gan alluogi'r Awdurdod Archwilio i benderfynu beth yw'r materion allweddol ar y cam Archwilio.

Mae CNC o'r farn y dylai sylwadau perthnasol a sylwadau ysgrifenedig gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad terfyn iddynt ddod i law, nid ar eu hunion ar ôl iddynt ddod i law.

Oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r broses archwilio ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi eisoes yn yr adran hon y mae angen rhoi sylw iddynt yn eich barn chi?

Ymateb:

Oes. Hoffem ychwanegu amseriad sesiynau gwrandao a'r rhybudd a roddir at y rhestr o faterion. Byddem yn croesawu cael gweld agendâu sesiynau gwrandao yn gynt. Ein profiad hyd yma yw nad ydym ond yn cael y rhain tua wythnos cyn gwrandawriad ac mae hynny'n gallu golygu problemau o ran sicrhau bod staff ar gael. Os nad oes modd anfon agendâu manwl allan yn gynt yna o leiaf byddai awgrym o'r materion sy'n debygol o fod dan sylw yn y gwrandawriad yn help. Ein profiad gyda phrosiectau cynharach oedd nad oeddem yn cael agendâu manwl iawn er bod hyn wedi gwella mewn prosiectau mwy diweddar ac mae CNC yn croesawu hyn.

Bydd darparu agendâu clir a manwl yn galluogi CNC i ddod â staff ac adnoddau perthnasol ac angenrheidiol ynghyd mewn modd amserol; mae hyn yn arbennig o berthnasol os oes prosiectau'n cael eu cynnal yr un pryd.

Eich barn am y materion sydd wedi cael eu codi a'r syniadau a gyflwynwyd fel newidiadau posibl i'r broses archwilio ac awgrymiadau eraill er mwyn gwella?

Ymateb:

Mae CNC yn croesawu'r awgrymiadau a roddwyd gerbron ynglŷn â mwy o hyblygrwydd o ran y nifer o Arolygwyr a chanllawiau cliriach ar gytuno'n gynnar ar ddatganiadau tir cyffredin. Mae CNC o'r farn fod y trefniadau presennol o ran gwneud newidiadau i gais ar ôl iddo gael ei dderbyn yn ddigonol, gan y dylai unrhyw newidiadau fod o fewn y paramedrau a aseswyd yn y wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd yn unol â threfn 'amlen Rochdale' bob amser.

Oes ffyrdd eraill posibl o leihau'r gofynion gwybodaeth a roddir ar ymgeiswyr ar y camau cyn archwilio ac archwilio?

Ymateb:

Oes, drwy sicrhau bod gan yr Arolygiaeth Gynllunio fwy o rôl ar y cam cyn ymgeisio a bod proses gliriach ar gyfer ymgysylltu drwy gyhoeddi prosiectws / rhaglen neu rywbeth cyfatebol.

Ddylai gwneud newidiadau i'r broses archwilio fod yn flaenoriaeth i'r adolygiad hwn a pha newid yr hoffech chi ei weld fwyaf?

Ymateb:

Yn ein barn ni dylid rhoi blaenoriaeth i adolygu'r broses cyn ymgeisio yn hytrach na'r broses Archwilio.

| |
|--|
| Newidiadau i Orchmynion Caniatâd Datblygu ar ôl rhoi caniatâd |
| Ydych chi'n cytuno â'r syniad o symleiddio'r trefniadau ymgynghori a hysbysu presennol mewn achosion lle caiff newidiadau amherthnasol eu gwneud i orchmynion caniatâd datblygu? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Nac ydym. Mae CNC o'r farn y gallai newidiadau o'r fath arwain at ganlyniadau nad ydynt wedi'u bwriadu, er enghraifft, gallai newidiadau a datblygiadau diweddar mewn technoleg arwain at effeithiau nad ydynt wedi cael eu hasesu cyn hynny fel rhan o'r wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd. Gellir gwneud newidiadau amherthnasol o dan y system bresennol cyhyd â bod y newidiadau o fewn y paramedrau a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol. Gall newidiadau fod yn 'newidiadau perthnasol' yn dibynnu ar y buddiant y maen nhw'n effeithio arno. Mae CNC o'r farn y byddai'n fuddiol pe bai diffiniad statudol o'r hyn sydd yn newid 'amherthnasol' a 'perthnasol'.</p> |
| Ydych chi'n credu y byddai gwahaniaethu rhwng newidiadau perthnasol bach a rhai mwy sylweddol yn cynnig model er symleiddio'r broses o wneud newidiadau i orchmynion caniatâd datblygu? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Nac ydym, oherwydd dylai unrhyw newidiadau gael eu hasesu gan yr awdurdod priodol mewn ymgynghoriad â'r ymgynghoreion statudol perthnasol ac eraill â buddiant a'u cloriannu yn erbyn y Datganiad Amgylcheddol sydd wedi'i gyflwyno. Dylid gwirio hefyd eu bod yn cydymffurfio â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a gofynion deddfwriaethol eraill fel sy'n ofynnol.</p> |
| Oes ffyrdd eraill o gwtogi neu symleiddio'r prosesau cyfredol er gwneud newidiadau i orchmynion caniatâd datblygu neu'u gwella fel arall? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Mae CNC o'r farn fod y trefniadau cyfredol yn briodol.</p> |
| Ddylai hwn fod yn faes blaenoriaeth i'r adolygiad? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Na ddylai. Yn ein barn ni dylid rhoi blaenoriaeth i adolygu a gwella'r broses cyn ymgeisio.</p> |
| Symleiddio Caniatadau |
| Ydy'r llywodraeth wedi sicrhau'r cydbwysedd iawn yn ei threfn i ddelio â chaniatadau o dan y gyfundrefn cynllunio seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd neu a oes angen ei symleiddio ymhellach? |
| <p>Ymateb:</p> <p>Hoffai CNC dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae'r broses NSIP yn</p> |

gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r 'Consents Service Unit' yn gweithredu yng Nghymru. Byddem yn awyddus i ddeall pa mor llwyddiannus fu'r uned hon a pha feysydd yw'r meysydd llwyddiant allweddol er mwyn deall y ffordd orau o ymgorffori'r profiad hwn mewn prosiectau yng Nghymru yn y dyfodol.

CNC yw'r awdurdod priodol erbyn hyn i benderfynu ar Drwyddedau Morol yn Nyfroedd Cymru. O ran yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn gysylltiedig â chynllunio seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd yng Nghymru, byddai CNC yn croesawu arweiniad gan DCLG, PINS a DECC mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru yn glân ag i ba raddau y gall yr asesiad gael ei rannu rhwng ceisiadau am Drwyddedau Morol a phrosiectau seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd.

Gwella'r ymgysylltu â chymunedau lleol, awdurdodau lleol ac Ymgynghoreion Statudol

Ydych chi'n cytuno â'r farn a fynegwyd hyd yma yn glân â'r materion sy'n wynebu awdurdodau lleol, cymunedau ac ymgynghoreion statudol o ran ymgysylltu â'r gyfundrefn cynllunio seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd?

Ymateb:

Ydym, o ran rhannu'r gwersi sy'n cael eu dysgu.

Ydych chi'n cefnogi'r syniadau gwella sydd wedi cael eu hawgrymu hyd yma er mwyn cryfhau'r ymgysylltu? Oes yna syniadau neu atebion eraill a ddylai gael eu hystyried yn eich barn chi?

Ymateb:

Mae CNC yn cefnogi cynlluniau newydd megis fideos ar-lein, yng nghyswllt y broses NSIP. Mae'r ychwanegiadau newydd at wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn ddefnyddiol iawn. Rydym hefyd am gydnabod a diolch i'r Arolygiaeth Gynllunio am ei help uniongyrchol o ran darparu trafodaethau a hyfforddiant i staff CNC (a chyn hynny y cyrff etifeddol – y Cyngor Cefn Gwlad, AAC a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru) yn glân â'r broses NSIP.

Ddylai hyn fod yn faes blaenoriaeth i'r adolygiad?

Ymateb:

Ym marn CNC nid yw hyn yn flaenoriaeth i'r adolygiad. Rydym yn cefnogi rhoi sylw i wella'r cam cyn ymgeisio fel y flaenoriaeth.